



Diweddariad Credyd Cynhwysol a Llesiant
Diweddariad 6

Awst 2017

Cyhoeddwyd y data diweddaraf ar y Credyd Cynhwysol ar gyfer Prydain Fawr erbyn hyn, sy'n dangos manylion hawliadau hyd at 8 Mehefin 2017. Dengys:

- bod 540,000 yn hawlio Credyd Cynhwysol fel ar 8 Mehefin 2017
- bod 30% o'r hawlwyd mewn cyflogaeth
- mai dynion oedd 59% o'r hawlwyd
- y gwnaed 1.2 miliwn o hawliadau am Credyd Cynhwysol hyd at 8 Mehefin 2017.

Roedd 21,674 yn hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym Mehefin 2017.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: <https://tinyurl.com/ybhwh3ye>

Mae 101 o ganolfannau gwaith yn cynnig gwasanaeth llawn ar draws y Deyrnas Unedig. Cyflwynwyd gwasanaeth llawn mewn 30 o ganolfannau gwaith ym mis Gorffennaf a disgwylir y bydd hyn yn cynyddu i 50 y mis o fis Hydref ymlaen.

Yng Nghymru, cychwynnodd y gwasanaeth llawn yn Sir y Fflint ym mis Ebrill ac yn Nhorfaen ym mis Gorffennaf.

Y rhaglen ar gyfer ymestyn y gwasanaeth llawn yng Nghymru yw:

- Mis Hydref 2017: Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam
- Mis Tachwedd 2017: Casnewydd
- Mis Rhagfyr 2017: Abertawe
- Mis Chwefror 2018: Conwy, Sir Ddinbych, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd.
- Mis Mawrth 2018: Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, Merthyr a Sir Fynwy
- Mis Ebrill 2018: Blaenau Gwent a Gwynedd
- Mis Mai 2018: Caerffili, Ceredigion a Sir Benfro
- Mis Mehefin 2018: Bro Morgannwg a Phowys
- Mis Gorffennaf 2018: Rhondda Cynon Taf

Disgwylir y bydd ymfudo hawlwyd gwaddol ym mis Gorffennaf 2019 os yw'r system yn barod, ac mae'n debyg o ddod i ben tua Mawrth 2022.

Bu'r hawliad cyntaf yn y Gymraeg yn Nhorfaen ym mis Gorffennaf. Mae fersiwn Cymraeg o'r gwasanaeth llawn yn dal i gael ei ddatblygu a disgwylir y bydd ar gael yn gynnar yn 2018 ac mae datrysiad dros dro yn ei le yn y cyfamser. Bydd hawlwyd sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg yn cael mynediad i hyfforddydd gwaith sy'n siarad Cymraeg a byddant yn gallu anfon a derbyn negeseuon Cymraeg drwy'r cyfrif ar-lein.



1. Arolwg Credyd Cynhwysol

Casglwyd yr wybodaeth ddilynol dan bedwerydd arolwg CHC o'r Credyd Cynhwysol.

Llenwodd 33 sefydliad yr arolwg ar gyfer mis **Rhagfyr 2016**.

Fel ym mis Rhagfyr 2016 roedd 1438 o hawlwyd **hysbys** Credyd Cynhwysol yn y **sector yng Nghymru**, gyda 105 ohonynt yn hawliadau newydd o fewn mis Rhagfyr.

Roedd 471 o Drefniadau Talu Amgen (APA) yn eu lle (28.9%), gyda 403 ohonynt am Daliad a Reolir (MP) a 219 yn cynnwys Didyniad Trydydd Parti (TPD). Mae amserau prosesu yn 30.5 diwrnod ar gyfartaledd.

Mae ôl-ddyledion yn sefyll ar £658,933 ar gyfartaledd o £500.71 fesul tenant.

Yn gyffredinol, mae aelodau'n dweud nad yw'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol (Gwasanaeth Byw fel o fis Rhagfyr 2016) naill ai wedi gwella na gwaethygu ers cynnal yr arolwg diwethaf.

Gallwch ddadansoddi nifer hawlwyd lleol drwy fap rhyngweithiol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP): <https://tinyurl.com/y8r964sd>

Byddwn yn casglu gwybodaeth yn fuan ar gyfer arolwg nesaf CHC hyd at 31 Mehefin 2017.

2. Diweddariadau Proses Credyd Cynhwysol

2.1 Taliadau

Mae'r DWP yn canolbwyntio ar wella nifer y taliadau a wneir o fewn y cyfnod asesu cyntaf. Fel ar 19 Mehefin, roedd 80% o hawlwyd wedi talu eu holl Credyd Cynhwysol a chostau tai erbyn diwedd y cyfnod asesu cyntaf. O'r 20% arall, nid oedd dros draean wedi cytuno ar eu hymrwymiad hawlwyd ac roedd y ddau-draean arall angen dilysiad gan yr hawlwyd.

2.2 Ffurflen UC 47 Trefniant Talu Amgen (APA)

Ym mis Ebrill, cyflwynodd y DWP welliant i ffurflenni cais UC47 Trefniant Talu Amgen (APA) a phrosesau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth ar Yammer yma: <https://tinyurl.com/y8uyitjl>. Mae'r DWP yn parhau i adolygu'r ffurflen i weld os gellir ei gwella ymhellach. Gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y gellir ei gwella.



2.3 Ffurflen UC182 Dilysu Rhent

Mae DWP wedi diweddarau ei ffurflen UC182 Dilysu Rhent i gynnwys yr opsiwn i landlordiaid wneud cais am Drefniant Talu Amgen drwy'r ffurflen hon. Gobeithir y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl dynodi Trefniadau Talu Amgen Taliadau a Reolir yn gynnar ar y cam hawliadau newydd. Gall landlordiaid cymdeithasol ddal i ofyn am Drefniant Talu Amgen Taliad a Reolir yn nes ymlaen drwy'r broses bresennol, yn defnyddio ffurflen UC47, fodd bynnag drwy ddefnyddio UC182 rydych yn sicrhau y caiff yr APA ei godi yn y cyfnod asesu cyntaf.

2.4 Cymorth Personol i Drin Arian

Fel canlyniad i adborth, mae DWP yn edrych sut i wella sut y dynodir pobl agored i niwed sydd angen cymorth personol i drin arian. Maent yn treialu ychwanegu cwestiwn o fewn yr hawliad ar-lein gwasanaeth llawn i ofyn i'r hawlydd os ydynt angen help gyda thrin arian, yn hytrach na'r hawlydd yn gorfod datgan hyn wyneb i wyneb. Os yw'r hawlydd yn ticio eu bod angen cymorth, caiff hyn ei fwydo i'r ganolfan wasanaeth i'w weithredu. Mae hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd a chaiff ei adolygu.

2.5 Newidiadau/cynnydd rhent

Mae'r DWP wrthi'n adolygu sut y gellir gwella'r broses newidiadau rhent ar gyfer hawlwyd a hefyd landlordiaid mewn gwasanaeth llawn a byw. Rhoddodd CHC adborth i'r DWP ar y materion a godwyd gan ein haelodau ar Yammer. Byddwn yn sicrhau y cewch yr wybodaeth ddiweddaraf fel a phryd y clywn fwy.

2.6 Porth Landlordiaid

Mae'r porth landlordiaid yn awr yn cael ei dreialu gan bedwar landlord yn Lloegr yn cynnwys Cyngor Southwark a Curo. Mae'r porth ar gyfer hawliadau Credyd Cynhwysol gwasanaeth llawn newydd ac unrhyw newid amgylchiadau cysylltiedig â thai sy'n cynhyrchu dilysiad rhent newydd. Diben y porth yw gwneud trosglwyddo gwybodaeth rhwng y DWP a landlordiaid yn llawer mwy effeithiol.

Dywedodd CHC wrth y DWP ein bod yn awyddus i landlordiaid cymdeithasol o Gymru gymryd rhan yn y cynllun peilot. Deallwn fod gwaith yn mynd rhagddo ar y meini prawf ar gyfer cymryd rhan yn y cynllun peilot a byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag y clywn fwy.

2.7 Diwygio canllawiau Credyd Cynhwysol a thai rhent

Mae'r DWP wedi diwygio eu canllawiau Credyd Cynhwysol a thai rhent ar gyfer landlordiaid sydd ar GOV.uk. Mae hyn yn awr yn cynnwys pynciau y mae landlordiaid yn ein holi amdanynt yn gyson, megis gwybodaeth i gefnogi landlordiaid i wneud cais am 'Taliad a Reolir i Landlord', rhan o'r gyfres cynnyrch 'Trefniant Talu Amgen'. Bydd y canllawiau newydd hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth ar sut y caiff 'Taliadau a Reolir' gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol eu talu.

Medrir gweld y canllawiau yma: <https://tinyurl.com/y75zrzd7>



Mae'r DWP hefyd wedi cynhyrchu cyfres newydd o fideos YouTube ar y Credyd Cynhwysol i roi trosolwg o'r gwasanaeth llawn. Mae'r rhain ar gael yn <http://www.youtube.com/UniversalCreditinAction>

2.8 Cyfarfod bwrdd crwn Credyd Cynhwysol landlordiaid Cymru gyda'r DWP

Mae CHC wedi trefnu cyfarfod bwrdd crwn nesaf Credyd Cynhwysol ar ddydd Iau 28 Medi. Gadewch i ni wybod cyn gynted ag sydd modd os gwelwch yn dda os oes unrhyw bynciau neu ymholiadau yr hoffech iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod. Rydym eisoes wedi gofyn i'r DWP am ddiweddariad ac esboniad o gynlluniau'r dyfodol ar gyfer statws partner dibynadwy a'r porth landlordiaid. Byddwn yn cylchredeg nodyn o'r trafodaethau i bob aelod yn dilyn y cyfarfod.

3 Taliadau Annibynnol Personol

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo mewn deddfwriaeth (adran 89 Deddf Diwygio Llesiant 2012) i gynnal dau adolygiad annibynnol o Taliadau Annibynnol Personol (PIP), i gydnabod maint her gweithredu'r budd-dal newydd. Cyhoeddwyd ail adolygiad annibynnol asesiad Paul Grey o PIP ddiwedd mis Mawrth 2017: <https://tinyurl.com/ycqt3vbf>. Mae'r adolygiad wedi amlygu rhai meysydd o gonsyrn, yn fwyaf amlwg ansawdd a chysondeb asesiadau, ymddiriedaeth yr hawlwyd mewn penderfyniadau a'r broses Ailystyried Gorfodol (MR). Mae'r adolygiad hefyd wedi dynodi amrywiad mewn dyfarniadau rhwng ac o fewn rhanbarthau.

Mae'r argymhellion diweddaraf yn adeiladu ar argymhellion o'r adolygiad cyntaf ac yn canolbwyntio ar bedair prif thema:

- Ansawdd a gwybodaeth
- Tystiolaeth bellach
- Asesiad a
- Tryloywder ac ymddiriedaeth.

Mae swyddogion DWP wedi dechrau gweithio ar yr ymateb. Maent yn cael trafodaethau rheolaidd yn fewnol ac yn allanol (rhanddeiliaid) gan sicrhau y byddant mewn sefyllfa i ymateb yn ddiweddarach eleni. Gwnaed gwelliannau i PIP ers yr adolygiad cyntaf, fodd bynnag mae DWP yn deall fod angen gwneud mwy. Maent yn ystyried ystod o gyfleoedd i wella'r broses asesu, cynyddu ansawdd a chysondeb penderfyniadau a sicrhau'r profiad gorau posibl i hawlwyd.

Mae Bwrdd Rhanddeiliaid Partneriaeth Strategol Cymru DWP yn bwriadu cynnal sesiwn i adolygu a chodi pryderon am weithredu PIP maes o law. Cysylltwch â CHC os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech iddynt gael eu bwydo i'r sesiwn yma.



4 Treth Ystafelloedd Gwely

Daeth newidiadau i rym ar 1 Ebrill i ganiatáu ystafell wely ychwanegol lle mae plentyn yn anabl neu oedolyn anabl heb fod yn ddibynnol yn rhesymol angen gofal dros nos gan ofalwr heb fod yn breswyl, ac i ganiatáu ystafell wely ychwanegol i gyplau o oedolion anabl os yw eu hawdurdod lleol yn penderfynu nad yw'n rhesymol iddynt rannu fel canlyniad i anabledd aelod o'r cwpl. Mae mwy o wybodaeth ar Yammer yma: <https://tinyurl.com/yb2eaov3>

5 Partneriaid Cymunedol

Mae Partneriaid Cymunedol yn brosiect ar draws y Deyrnas Unedig gyda'r nod o ddarparu gwell cefnogaeth cyflogaeth i rai gydag anableddau a chyflyrau iechyd. Daw'r rhaglen o'r cynlluniau yn y Papur Gwyrdd ar waith, iechyd ac anabledd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016. Mae Partneriaid Cymunedol yn brosiect 12 mis o hyd (gyda phosibilrwydd estyniad) a'i nod yw haneru'r bwlch cyflogaeth anabledd a chefnogi 1 miliwn o bobl gydag anableddau i waith. Bydd y ffocws ar ymwreiddio cefnogaeth fel y bydd y prosiect yn gadael gwaddol o well cefnogaeth i bobl anabl pan ddaw i ben.

Mae timau Partneriaid Cymunedol yn awr yn eu lle yn ardal pob canolfan waith ar draws y Deyrnas Unedig. Byddant yn dechrau ar dri maes allweddol o waith:

- Adeiladu gwybodaeth a sgiliau staff Canolfannau Byd Gwaith i gefnogi pobl gyda chyflyrau iechyd ac anableddau.
- Dynodi, cyrchu a hyrwyddo dulliau newydd o ddarpariaeth ar gyfer hawlwr., Bydd hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o sefydliadau cymorth a threialu ffyrdd o rannu'r wybodaeth hon gyda staff Canolfannau Byd Gwaith.
- Gweithio gyda chyflogwyr lleol drwy gynlluniau ymgysylltu cyflogwyr i gynyddu ymwybyddiaeth am recriwtio, cyflogi a chadw pobl gyda chyflyrau iechyd ac anableddau.

Cysylltwch â phartner cymunedol arweiniol eich ardal drwy'r ganolfan gwaith lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau ar y rhaglen hon.

6 Offeryn Rheoli Arian y Gwasanaeth Cyngor Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor Arian (MAS) yn creu offeryn rheoli arian yn benodol ar y Credyd Cynhwysol y gall landlordiaid cofrestredig rhanbarthol neu unrhyw sefydliad ei gynnwys ar eu gwefannau. Mae'r offeryn yn gofyn nifer o gwestiynau sylfaenol i roi amrywiaeth o gyngor a chefnogaeth, yn cynnwys cyfeirio'r defnyddiwr at sefydliadau eraill. Mae hefyd yn rhoi rhestr o dasgau i'r defnyddiwr, megis er enghraifft gysylltu â'r awdurdod lleol am Daliadau Tai ar Ddisgresiwn, talu ôl-ddyledion, cysylltu â'u landlord, agor cyfrif banc ac yn y blaen. Cafodd yr offeryn ei brofi gan hawlwr Credyd Cynhwysol a chafodd adborth cadarnhaol dderbyniad cadarnhaol hyd yma.

Caiff perfformiad yr offeryn ei werthuso unwaith y bydd wedi cyrraedd mil o ddefnyddwyr. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod yn ddefnyddiwr cynnar o'r offeryn, cysylltwch â lee.appleyard@moneyadvice.service.org.uk



Disgwylir y bydd yr offeryn yn barod i'w gyhoeddi ym mis Awst.

Efallai y gwyddoch eisoes bod gan MAS hefyd nifer o daflenni cyngor ar ystod o bynciau yn cynnwys Credyd Cynhwysol y gall cymdeithasau tai eu harchebu a'u rhannu gyda thenantiaid. Gall pob landlord ofyn am hyd at 2,000 y flwyddyn o bob taflen a gellir eu harchebu ar-lein:

<https://www.moneyadvice.service.org.uk/en/articles/free-printed-guides>

7 Adolygiad Llety â Chymorth

Mae DWP yn gweithio'n agos gyda'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyhoeddi'r Papur Gwyrdd a ddisgwyliid yng ngwanwyn 2017 ond y bwriedir bellach ei gyhoeddi yn yr hydref. Bydd hyn yn cynnwys ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac adroddiad cydbwyllgor Cymunedau & Llywodraeth Leol a Gwaith & Pensiynau.

Mae CHC wedi lobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gadw cyfran sylweddol o'r cyllid ar gyfer costau tai mewn llety â chymorth o fewn y system budd-daliadau. Mae'r ymchwiliad trawsbleidiol wedi cefnogi ein hymateb i ymchwiliad y cydbwyllgor, a alwodd am greu Lwfans Tai â Chymorth a fyddai'n adlewyrchu gwir gostau darparu llety â chymorth, yn lle'r Lwfans Tai Lleol. Byddai'r gronfa atodol yn parhau dan y model hwn, ond rhagwelir mai lleiafrif o unedau llety â chymorth fyddai angen ei defnyddio, gan y byddai'r Lwfans Tai â Chymorth yn cynnwys y rhan fwyaf o renti a thaliadau gwasanaeth. Bydd y Papur Gwyrdd yn dangos i ba raddau y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi ystyriaeth i adroddiad yr ymchwiliad.

Yng Nghymru, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio model cyllido arfaethedig ar gyfer Ebrill 2019 ymlaen, ar y dybiaeth yr aiff y polisi yn ei flaen fel y bwriedir ar hyn o bryd. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori yn fewnol i lywio ein safleoliad polisi a hefyd yn allanol i roi mynediad uniongyrchol i aelodau ar y prif was sifil sy'n gweithio ar y polisi. Cynhelir mwy o ddigwyddiadau ymgynghori yn ystod y misoedd yn arwain at Ebrill 2019 i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru.

Cysylltwch â Will-Atkinson@chcymru.org.uk os hoffech drafod unrhyw faterion yn ymwneud â pholisi cyllido llety â chymorth.

8 Lwfans Tai Lleol

Mae CHC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y CIH a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddynodi effaith disgwylid y lwfans tai lleol ar gartrefi anghenion cyffredinol o fis Ebrill 2019. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn ymchwilio'r dilynol:

- gwelliannau i, neu ddull arall, o gyfrif costau tai ar gyfer tai cymdeithasol anghenion cyffredinol
- effaith dod â rhewi cyfraddau Lwfans Tai Lleol i ben a dychwelyd i'r gwir 30ain canradd neu'r 50fed canradd gwreiddiol
- ffiniau BRMA presennol ac effaith newid hyn



- lliniaru effaith y polisi ar dai cymdeithasol anghenion cyffredinol.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mai ac mae'r nodyn o'r cyfarfod ar gael yma: <https://www.yammer.com/chcmembers/#/files/89273068>.

Disgwylir y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Awst a byddwn yn cylchredeg nodyn o ganlyniadau'r cyfarfod hwn yn fuan wedyn. Yn y cyfamser, rydym yn awyddus clywed gennych sut ydych yn modelu'r effeithiau o fewn eich sefydliad fel y gallwn rannu rhai o'r prosesau a'r canlyniadau yn y cyfarfod nesaf a gweld sut y gallwn ddynodi'r effaith ar draws y sector. Os ydych yn hapus i rannu eich dadansoddiad, cysylltwch â hayley-macnamara@chcymru.org.uk os gwelwch yn dda.

9 Eich cysylltiadau yn Cartrefi Cymunedol Cymru

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau ar gynnwys y papur gwybodaeth hwn neu unrhyw faterion ehangach yn gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol neu lesiant, cysylltwch â:

Hayley Macnamara hayley-macnamara@chcymru.org.uk

Will Atkinson will-atkinson@chcymru.org.uk